



TAG Uwch

1375/51

CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY5
Y CHWEDLAU, YR HENGERDD A'R CYWYDDAU
(Papur Ysgrifenedig)

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011

1½ awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

Ni chaniateir defnyddio copïau o'r testunau gosod na geiriaduron yn yr arholiad hwn.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **45 munud** yr un ar y **ddau** gwestiwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu isgwestiwn.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

ADRAN A

1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

Darllenwch y darn canlynol ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Troschwch i Gymraeg llenyddol diweddar **linellau 1-14**: ‘A dywedut a oruc Arthur ac y duc y gwelleu y gantaw.’ [20]
- (b) Manylwch ar y **themâu** a geir yn y **darn cyfan** isod (**linellau 1-20**). [20]

A dywedut a oruc Arthur wrth vilwyr yr Ynys honn, “Twrch Trwyth a ladawd llawer o’r gwyr. Myn gwrhyt gwyr, nyt a mi yn uyw yd aho ef y Gernyw. Nys ymlityaf i ef bellach namyn mynet eneit dros eneit ac ef a wna. Gwnewch chwi a wnelhoch.”

Sef a daruu o gyghor gantaw: ellwng kat o uarchogyon a chwn yr Ynys gantunt hyt yn Euyas ac ymchoelut odyo hyt yn Hafren, a’e ragot yno ac a oed o vilwyr prouedic yn yr Ynys honn, a’e yrru anghen yn anghen yn Hafren.

A mynet a wnaeth Mabon uab Modron gantaw ar Wynn Mygdwn march Gwedw yn Hafren, a Goreu mab Custennin a Menw mab Teirgwaed, y rwng Llynn Lliwan ac Aber Gwy. A dygwydaw o Arthur arnaw, a rysswyr Prydein gyt ac ef.

Dynessau a oruc Osla Gyllelluawr a Manawydan uab Llyr a Chacamwri gwas Arthur a Gwyngelli, a dygrynniaw yndaw, ac ymauael yn gyntaf yn y traet a’e gleicaw ohonunt yn Hafren yny yttoed yn llenwi ody uchtaw. Brathu amws o Uabon uab Modron o’r neil[1]parth a chael yr ellyn y gantaw. Ac o’r parth arall y dygyrchwys Kyledyr Wyllt y ar amws arall gantaw yn Hafren ac y duc y gwelleu y gantaw.

Kynn kaffel diot y grib, kaffel dayar ohonaw ynteu a’e draet, ac o’r pan gauas y tir ny allwys na chi na dyn na march y ganhymdeith hyt pan aeth y Gernyw. Noc a gaffat o drwc yn keissaw y tlysseu hynny y gantaw, gwaeth a gaffat yn keissaw diffryt y deu wr rac eu bodi. Kacamwri, ual y tynnit ef y uynyd, y tynnei deu uaen ureuan ynteu y’r affwys. Osla Gyllelluawr, yn redec yn ol y twrch, y dygwydwys y gyllell o’e wein ac y kolles, a’e wein ynteu gwedy hynny yn llawn o’r dwfyr. Ual y tynnit ef y uynyd y tynnei hitheu ef y’r affwys.

ADRAN B

2. Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Darllenwch y dyfyniad a ganlyn ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Rhowch **gefndir y gerdd** a **chefndir y bardd** os yw'n hysbys. [20]
- (b) Dadansoddwch **arddull** y bardd yn y **dyfyniad** hwn. [20]

Afal pêr ac aderyn
 A garai'r gwas, a gro gwyn;
 Bwa o flaen y ddraenen,
 Cleddau digon brau o bren.
 Ofni'r bib, ofni'r bwbach,
 Ymbil â'i fam am bêl fach.
 Canu i bawb acen o'i ben,
 Canu 'wô' er cneuen.
 Gwneuthur moethau, gwenieithio,
 Sorri wrthyf fi wnâi fo,
 A chymod er ysglodyn
 Ac er dis a garai'r dyn.

Och nad Siôn, fab gwirion gwâr,
 Sy'n ail oes i Sain Lasar!
 Beuno a droes iddo saith
 Nefolion yn fyw eilwaith;
 Gwae eilwaith, fy ngwir galon,
 Nad oes wyth rhwng enaid Siôn.

O Fair, gwae fi o'i orwedd!
 A gwae fy ais gau ei fedd!



TAG Uwch

1375/51-A

CYMRAEG: IAITH GYNTAF CY5

WELSH: FIRST LANGUAGE CY5

**Y CHWEDLAU, YR HENGERDD A'R CYWYDDAU
MEDIEVAL PROSE, EARLY AND MEDIEVAL
POETRY**

(Papur Ysgrifenedig)

(Written Paper)

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011

A.M. THURSDAY, 9 June 2011

1½ awr / 1½ hours

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau
For the attention of the Examinations Officer**

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL / ADDITIONAL MATERIALS

Yn ogystal â'r papur hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

In addition to this paper, you will need a 12 page answer booklet.

Ni chaniateir defnyddio copiâu o'r testunau gosod na geiriaduron yn yr arholiad hwn.

Dictionaries and set texts are not permitted in the examination.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR / INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

Defnyddiwch inc neu feiro du. / *Use black ink or black ball-point pen.*

Atebwch y **ddau** gwestiwn. / *Answer both questions.*

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân. / *Write your answers in the separate answer booklet provided.*

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Where it is necessary to express your opinions, you should give reasons for them and refer to the opinions of others when appropriate.

Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau. / *You should use literary criticism terms and quotes.*

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

You are reminded that assessment will take into account the quality of written communication used in your answers.

Dylech dreulio **45 munud** yr un ar y **ddau** gwestiwn. / *You should allow 45 minutes each on both questions.*

GWYBODAETH I YMGEISWYR / INFORMATION FOR CANDIDATES

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau. / *The marks allocated for each question are equal.*

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

The number of marks available are shown in brackets at the end of each question or part-question.

Atgoffir chi mai mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

You are reminded that this paper is synoptic and will therefore test the information, understanding, and skills you have developed by studying the subject.